

Diwedd Blwyddyn

Darllen: Luc 12: 31

Cymaint o wahaniaeth mae un diwrnod yn ei wneud. Heddiw mae'n ddiwrnod tawel, braf a chynnes o gofio ei bod yn ddiwedd Rhagfyr. Wrth edrych drwy'r ffenestr fe welaf ddawns o bryfed bach y tu allan yn manteisio ar belydrau prin haul diwedd y flwyddyn. Mae'r coed a'r gwrychoedd yn hollol lonydd. A dweud y gwir, mae'n ddiwrnod i fynd am dro. Ond ddoe roedd hi'n ddiwrnod cwbl wahanol. Storm o'r gogledd-orllewin – glaw llorweddol a gwyntoedd tymhestlog. Roedd hi'n digwydd bod yn llanw uchel hefyd, a hwnnw'n cael ei hyrddio dros y ffordd. Sôn ydw i am Afon Menai. Ac nid yr un peth ydi 'afon' i bobl y wlad a phobl glannau'r môr. Mae afonydd y wlad yn cadw'r un fath os na fydd glaw mawr. Ond mae afonydd glannau'r môr yn newid efo'r llanw bedair gwaith bob dydd. Y bore yma mae'r afon yn llyso'n hamddenol a phelydrau'r haul yn pefrio ar yr wyneb. Ond erbyn heno bydd cynnwrf yn y dŵr a'r llanw'n dod i mewn hyd at yr ymylon. Bydd wedi gorchuddio'r llaid a'r mwd, a bydd y dŵr yn rhyferthwy rhwng y colofnau sy'n dal Pont y Borth. Nid storm o law sy'n peri bod y llanw'n dod i mewn ac yn mynd allan, ond grym y môr. A ddoe fe chwipiodd y gwynt y llanw mawr nes iddo ddod drosodd a llenwi'r ffordd, a'r cwbl yn gyfareddol i'r llygaid. Dechreuodd y gwylyanod nofio ar lanw'r ffordd ac ambell un mwy mentrus yn hyrddio'i ganw dros y tir oedd dan ddŵr. Golygfa i ryfeddu ati. Ymhen y rhawg gostegodd y dyfroedd a thawelodd y gwynt; aeth y gwylyanod yn ôl i nofio ar ddyfroedd yr afon ac aeth arwr y canw yntau adref wedi cael diwrnod i'w gofio mae'n siŵr.

Mae glan y môr yn edrych yn hagr pan yw'r llanw allan, yn enwedig pan nad oes tywod ar y traeth. Mae'n gymysgedd o laid a gwymon a phob math o sbwriel, a dyn yn bennaf sy'n gyfrifol am y llanast. Ond pan ddaw'r llanw i mewn mae'r cyfan wedi'i orchuddio a'r dŵr yn cuddio'r budreddi. Mae'r llanw'n glanhau'r lân. Dyna un o fendithion Duw pan fo llanw ei gariad, ei ras a'i dosturi yn taflu drosom. Mae'n glanhau.

Mae'r llanw hefyd yn rhoi bywyd newydd. Pan yw'r llanw ar drai, mae'r creaduriaid bychain sy'n byw ar y lan yn gorfod llonyddu neu guddio. Mae'r crancod yn mynd i guddio dan y gwymon neu bwll yng nghanol y creigiau. Mae'r ymlusgiaid yn mynd i mewn i'w cregyn i'w hamddiffyn eu hunain, ac mae'r lan yn edrych yn ddifywyd a gwag. Ond pan ddaw'r llanw i mewn, mae bywyd yn cyniwair unwaith eto ac yn ail ddeffro ac yn adnewyddu. Dyma un arall o fendithion Duw. Mae'n gallu rhoi bywyd newydd a thrawsffurfio'r unigolyn. Pan fo bywyd ar drai, bydd llanw cariad Duw yn dod heibio ac yn rhoi gobaith a her newydd.

Mae un creadur rhyfeddol yn byw ar y creigiau pan fo'r llanw uchel yn cyrraedd y lan – dyma lygad maharen, sef y gragen fach sy'n dal yn dynn i'r graig pan fo'r tonnau'n lluchio o'i hamgylch. Yn ôl pob sôn, gall y llygad maharen gael ei dinistrio cyn y bydd yn gollwng gafael yn y graig. Ydi, mae'n medru dal yn dynn pan fo'r storm a'r tonnau ar eu gwaethaf. Mae bendithion Duw yn cynnal y Cristion hefyd yn rhyferthwy stormydd bywyd, a dyma sy'n codi'n gobeithion ar drothwy blwyddyn newydd.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi wedi teimlo bendithion Duw yn ystod y flwyddyn aeth heibio?

Chwiliwch am emyn/emynau sy'n sôn am fendithion Duw.